**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

12 Ionawr 2024

At: Randdeiliaid Gwasanaethau Plant

Annwyl bawb

**Papur Ymgysylltu ar y Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol**

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cyflwyno Rhaglen Drawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yng Nghymru. Mae'r Rhaglen yn adeiladu ar ein hymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu. Bydd y Rhaglen yn arwain at newid ar draws y system gyfan yng Nghymru, ac mae'n cyd-fynd â'r nodau ac amcanion ein Cynllun Plant a Phobl Ifanc.

Yn ganolog i gyflawni'r Rhaglen Drawsnewid mae datblygiad Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol (y Fframwaith). Nod y Fframwaith fydd rhoi'r polisi ar waith yn ymarferol, gwella ymarfer, ysgogi cysondeb a chyflawni'r set gyntaf o safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru, ochr yn ochr â gweithdrefnau eraill fel gweithdrefnau diogelu Cymru Gyfan.

Cafwyd trafodaeth gynhwysfawr a gweithiwyd gyda'n partneriaid i adolygu, cryfhau a gwella darpariaeth gwasanaethau. Rwy'n falch o rannu'r papur ymgysylltu amgaeedig gyda chi sy'n nodi'r hyn y mae'r Fframwaith yn anelu i'w gyflawni a sut y bydd yn gweithio'n ymarferol, yn ogystal â drafftiau o'r chwe safon gyntaf:

- Y safon ymarfer sy'n cynnwys y plentyn;
- Y safon Oedolion y gellir ymddiried ynddynt;
- Llygaid ar y plentyn: y safon diogelu plant;
- Y safon plant a phobl ifanc sydd ar goll;
- Y safon gofal parhaus;
- Safon llwythi gwaith hydrin.

Mae'r safonau drafft hyn yn rhai amlasiantaethol oherwydd ein bod yn cydnabod bod plant ag anghenion cymorth ac amddiffyniad angen cefnogaeth yn aml gan nifer o weithwyr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd fel tîm. Bydd y safonau yn disgrifio'n well sut mae gwasanaethau i blant yn gweithio, gan arwain at fwy o dryloywder.

Mae cydgynhyrchu'r safonau wedi bod yn allweddol, ac rydym yn bwriadu parhau â'r gwaith ymgysylltu hwn dros y flwyddyn nesaf gyda safonau drafft pellach yn cael eu rhannu fel rhan o broses ymgysylltu barhaus.

Mae'r papur amgaeedig yn gofyn am adborth am ein trywydd gwaith arfaethedig. Mae'n gofyn pum cwestiwn “agored” am y Fframwaith a'r broses o’i roi ar waith.

Mae rhestr o randdeiliaid a fydd yn cael eu cynnwys yn y rhan hon o'r broses ymgysylltu hefyd wedi'i hamgáu. Mae'n adlewyrchu'r dull amlasiantaeth y cyfeirir ato uchod ac mae'n cynnwys amrywiaeth o sefydliadau sy'n ymwneud â phobl ifanc â phrofiad o ofal.

Byddwn yn ddiolchgar pe gellid anfon ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y papur ymgysylltu i’r blwch canlynol yn Llywodraeth Cymru erbyn Dydd Gwener, 8 Mawrth.

FframwaithYmarferCenedlaethol@llyw.cymru


neu

NPF@gov.wales

Hoffem gefnogi'r broses ymgysylltu ymhellach trwy gynnal cyfarfodydd neu weithdai o bell, gweminarau ar faterion penodol a rhywfaint o waith maes wyneb yn wyneb dros y deuddeg mis nesaf. Os hoffech chi fod yn rhan o'r gwaith hwn, rhowch wybod i ni drwy gysylltu â'r blwch uchod. Efallai yr hoffech helpu i lywio safon benodol neu grŵp bach o safonau yn hytrach na phob un ohonynt. Byddem yn croesawu mewnbwn dwys ar safonau penodol.

Gwerthfawrogir eich cefnogaeth a'ch cyfranogiad parhaus a bydd hyn yn arbennig o bwysig os ydym am gyflawni ein hymrwymiadau i drawsnewid gwasanaethau plant yn ystod tymor y Senedd hon. Felly, rwy'n gobeithio y byddwch yn anfon eich sylwadau ar y papur ymgysylltu a'r safonau drafft cyntaf fel y gallwn sicrhau bod y Fframwaith yn cefnogi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services